

MADOG ap GWALLTER, 'Y Brawd,' bardd crefyddol

Enw: Madog ap Gwallter
Ffugenw: Y Brawd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd crefyddol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

Nid oes sicrwydd am ei ddyddiadau, ond y mae'n debyg mai ail hanner y 13eg ganrif oedd ei gyfnod, er nad yw'n amhosibl ei fod ychydig yn ddiweddarach. Ef oedd awdur y gerdd swynol ar enedigaeth Crist: 'Mab an rhodded, mab mad aned, dan ei freiniau,' y gellir ei hystyried y garol Nadolig hynaf yn yr iaith Gymraeg sydd ar gael. Ceir awdl o'i waith hefyd i Dduw, a chyfres o englynion i Fihangel. Y mae arddull ei holl waith, ac yn arbennig felly ei gân i'r Geni, yn symlach a mwy cartrefol ei ffigurau nag sydd yn gyffredin gan y Gogynfeirdd, ac y mae ôl myfyrdod ddisgybledig ddiwinyddol ar ei awdl i Dduw. Gwyddom fod y Brodyr Llwydion yng Nghymru erbyn 1237, oblegid fe godwyd tŷ iddynt yn Llanfaes yn y flwyddyn honno gan **Lywelyn Fawr**. Fe geir holl awyrgylch a ffresni'r meddwl Ffransiscaidd cynnar yng ngwaith Madog ap Gwallter, ac y mae'n dra thebyg ei fod yn perthyn i Urdd Sant Ffransis. Dengys ei englynion i Fihangel ei fod yn enedigol o ryw Lanfihangel. Ceir gwaith Madog ap Gwallter yn y *The Myvyrian Archaeology of Wales*, 273-5; a'i ganu i Dduw, ac i'r Geni, yn Llyfr Coch Hergest, 1151-4. Nid oes dim o'i waith yn **NLW MS 6680: Llawysgrif Hendregadredd**.

Yn llawysgrif Caerdydd 2.611, sydd i'w dyddio yn niwedd y 13eg ganrif neu ddechrau'r 14eg ganrif, ac sy'n cynnwys testun Lladin o'r 'Dares' a Brut **Sieffre**, fe geir 26 llinell o farddoniaeth Ladin lle sonnir am hen wrhydri brenhinoedd y Brythoniaid, a bod **Sieffre** wedi cyfieithu eu cerddi mawl. Fe'i geilw'r awdur ei hun yn 'Frater Walensis madocus edeirnianensis.' Deil **Syr Ifor Williams** (*Bulletin of the Board of Celtic Studies*, cyf. iv, rhan ii, 133-4) ei bod yn debygol mai'r un bardd ydyw hwn â'r 'Brawd Fadawg ap Gwallter,' ac os felly, yr oedd yn hanfod o Lanfihangel Glyn Myfyr, plwyf a gamgysylltir ag Edeimion hyd yn oed yn 1254, serch mai i Ddinmael y perthyn mewn gwirionedd (gweler **Owen**, *Pembrokeshire*, iv, 513, nodyn 1).

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

Yngghyd â'r ffynonellau uchod, gweler

Henry Lewis, *Hen Gerddi Crefyddol* (Caerdydd 1931)

Y Tyst, 25 Rhagfyr 1947

Darllen Pellach

Rhian M. Andrews (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd 1996)

Erthygl Wicipedia: **Madog ap Gwallter**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q3331101**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Lloyd, D. M., (1953). MADOG ap GWALLTER, 'Y Brawd,' bardd crefyddol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MADO-APG-1250>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government